# Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011

**2011 mccc 4**

**RHAN 6**

TROSOLWG A CHRAFFU

**PENNOD 1**

PWYLLGORAU TROSOLWG A CHRAFFU

*Darparu gwybodaeth*

**77 Blaen-gynlluniau a gwybodaeth arall**

(1) Caiff Gweinidogion Cymru drwy reoliadau wneud darpariaeth ar gyfer ei gwneud yn ofynnol bod gwybodaeth ragnodedig ynghylch arfer swyddogaethau'r canlynol—

(a) pwyllgor trosolwg a chraffu i awdurdod lleol, neu

(b) is-bwyllgor i'r pwyllgor hwnnw,

ar gael i aelodau o'r cyhoedd neu aelodau o'r awdurdod, neu mewn cysylltiad â hynny.

(2) Mae'r ddarpariaeth y caniateir ei gwneud o dan is-adran (1) yn cynnwys y canlynol (ond heb fod yn gyfyngedig iddynt)—

(a) darpariaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol bod gwybodaeth ragnodedig ar gael cyn arfer swyddogaethau a grybwyllir yn yr is-adran honno, a

(b) darpariaeth o ran y dull y bydd gwybodaeth ar gael ac ar ba ffurf y bydd yr wybodaeth ar gael.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 77 mewn grym ar 11.5.2011, gweler **a. 178(1)(a)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, Adran 77.